CYHOEDDIAD, DOGFENNU

# Dileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal

Trosolwg ein trawsnewid tuag at ofal nid-er-elw i blant.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 20 Tachwedd 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Tachwedd 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys


**Cefndir**

**Bwrdd y Rhaglen**

**Ffrydiau waith**

**Ymgynghori**

**Y camau nesaf**



**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cefndir

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn disgrifio ein hymrwymiad i drawsnewid gwasanaethau plant yng Nghymru. Mae'n egluro sut y byddwn yn darparu gwasanaethau ar gyfer:

- plant a phobl ifanc
- eu teuluoedd
- cymunedau

Mae ein Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru yn ein hymrwymo i ddileu elw preifat o'r system ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, drwy ddefnyddio model nid-er-elw yn unig. Byddwn yn dechrau drwy ganolbwyntio ar wasanaethau cartrefi gofal i blant a gofal maeth.

# Bwrdd y Rhaglen

Mae dyletswyddau'r Bwrdd yn cynnwys:

- cefnogi'r gwaith o ddatblygu deddfwriaeth fel sail ar gyfer gweithredu'r ymrwymiad
- helpu i sicrhau sefydlogrwydd yn y farchnad

Daw cynrychiolwyr o amrywiaeth o wahanol asiantaethau, gan gynnwys:

- sefydliadau maeth a chartrefi gofal i blant yn y sector preifat
- darparwyr y sector cyhoeddus a'r trydydd sector
- Llywodraeth Cymru
- comisiynwyr gwasanaethau
- Arolygiaeth Gofal Cymru

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Comisiynydd Plant Cymru
- Undebau llafur
- Voices from Care

Mae Bwrdd y Rhaglen yn gyfrifol am bedair ffrwd waith sydd â'r nod o edrych yn fanylach ar y prif heriau.

# Ffrydiau waith

## Ffrwd waith 1

Nodi ac argymell camau i'r Bwrdd eu cymryd i:

- ehangu a datblygu lleoliadau cartrefi gofal i blant a gofal maeth yr awdurdodau lleol
- rhoi sylw i wasanaethau sy'n gweithredu heb fod yn gofrestredig a gwella recriwtio ar gyfer cartrefi gofal

## Ffrwd waith 2

Nodi ac argymell camau i'r Bwrdd eu cymryd i:

- ehangu a datblygu lleoliadau nid-er-elw a ddarperir gan gartrefi gofal i blant a gofal maeth
- rhoi sylw i'r rhwystrau sy'n effeithio ar yr ymdrechion i ehangu neu ar fynediad i'r farchnad nid-er-elw

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffrwd waith 3

Nodi ac argymell camau i'r Bwrdd eu cymryd i:

- helpu darparwyr presennol yn y sector annibynnol / preifat i newid i fodel nid-er-elw.

## Ffrwd waith 4

Nodi ac argymell camau i'r Bwrdd eu cymryd i:

- sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar blant a phobl ifanc unigol

# Ymgynghori

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar gynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol i gefnogi'r polisi hwn yn 2022. Cafodd **crynodeb o'r ymatebion ei gyhoeddi ym mis Mehefin 2023** (dolen at yr ymatebion). Roedd cefnogaeth gref i'r cynigion, ond hefyd cafodd pryderon eu mynegi ynghylch canlyniadau anfwriadol.

# Y camau nesaf

- Datblygu polisi ymhellach ar gyfer darpariaeth bontio neu eithriadau.
- Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Strategaethau ar gyfer Comisiynu Lleoliadau Awdurdodau Lleol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

- Datblygu darpariaeth awdurdod lleol newydd, wedi ei chefnogi gan £68m dros y tair blynedd nesaf.
- Cynnal gweithdy gyda darparwyr er-elw i drafod modelau nid-er-elw yn y dyfodol a chymorth i newid o un model i'r llall.
- Datblygu'r gwasanaethau sydd ar ffiniau gofal ymhellach er mwyn cadw mwy o deuluoedd gyda'i gilydd os bydd hynny'n ddiogel.
- Cyflwyno Bil Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn 2024.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/dileu-elw-o-ofal-plant-syn-derbyn-gofal-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.